Senedd Cymru
**Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Rhieni: Adolygiad y Grŵp Cynghori

Dyddiad:  Rhagfyr 2025

## Cefndir

O ganlyniad i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?, ynghyd â'i waith craffu parhaus ar weithredu diwygiadau addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i Rieni. Bwriad yr adnodd hwn yw cefnogi teuluoedd i lywio drwy'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

## Cyfranogwyr

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion cyfweliad gyda pedwar aelod o'r grŵp cynghori gwreiddiol a oedd yn rhan o'r ymchwiliad i fynediad plant anabl at addysg.[1] Cynhaliwyd cyfweliadau yn y modd a ddewiswyd gan y cyfranogwr, ar-lein neu yn ysgrifenedig

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Teimlai'r cyfranogwyr yn gryf nad oedd y pecyn cymorth yn cyd-fynd â'u profiadau bywyd fel rhieni plant ag anghenion ychwanegol. Roedd teimlad cryf bod y pecyn cymorth yn gor-symleiddio realiti'r broses ADY, gan gynnwys amserlenni, rhan yr

[1] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

awdurdodau lleol, a'r pontio rhwng cyfrifoldeb yr ysgol a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Cytunodd y cyfranogwyr fod y pecyn cymorth yn cyflwyno prosesau fel rhai di-dor a syml, tra bod y realiti i lawer o rieni yn llawer mwy cynnil, cymhleth ac yn aml yn heriol yn emosiynol. Fe wnaethon nhw alw am gyngor mwy manwl i rieni o fewn y pecyn cymorth, yn ogystal â rhagor o wybodaeth ddeddfwriaethol i helpu rhieni i ddeall eu hawliau eu hunain, yn ogystal â hawliau eu plant.

## Materion o bwys

### Ymarferoldeb y cyngor

**1.** Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith nad yw'r pecyn cymorth ADY yn darparu gwybodaeth y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar gael yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru. Nodasant ei fod yn brin o ganllawiau ymarferol i rieni sy'n ceisio herio penderfyniadau neu lywio prosesau cymhleth ar gyfer eu plant.

**2.** Cytunodd y cyfranogwyr fod cyngor y pecyn cymorth, fel awgrymu adolygiad barnwrol neu apeliadau tribiwnlys, yn rhy syml, ac nad yw'n adlewyrchu'r cymhlethdod, y straen, y goblygiadau ariannol a'r risgiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn. Dadleuasant nad yw'r pecyn cymorth yn cynnig digon o gyngor na chanllawiau i rieni wrth ddilyn y llwybrau hyn, ac felly gallai gamarwain rhieni i feddwl bod y rhain yn opsiynau hawdd i bobl sy'n wynebu heriau o fewn y system.

> *"Dw i'n meddwl bod y pethau hyn (tribiwnlysoedd addysg) yn gymhleth ac yn anodd iawn ac mae'n gwneud iddynt swnio fel, wn i ddim, fel mynd i gael torri eich gwallt neu rywbeth... ond y gwir yw, er mwyn bod mewn sefyllfa i wneud y pethau hyn, byddai angen cymaint o gefnogaeth arnoch chi... fe fu bron imi roi'r gorau iddi."*

**3.** Cydnabu un cyfranogwr y gallai'r pecyn cymorth fod o gymorth bach i'r rhai sydd ar ddechrau eu taith gyda'r system ADY, ond i rieni sydd eisoes yn gyfarwydd â'r broses, nid yw'n darparu digon o wybodaeth fanwl ac ymarferol.

> *"Mae hwn yn iawn fel braslun cryno byr iawn o lawer o bethau. Ond mae realiti'r cyfan yn gymhleth iawn"*
>
> *"Fe wnes i hefyd ganfod bod y pecyn cymorth yn gwbl wahanol i'r realiti."*

**4.** Wrth drafod hygyrchedd y pecyn cymorth, teimlai'r cyfranogwyr fod y wybodaeth a ddarparwyd yn amwys, a bod y defnydd o dermau technegol, a'r

dybiaeth o wybodaeth flaenorol, yn ei gwneud hi'n anhygyrch, o bosibl, i rieni o gefndiroedd amrywiol neu'r rhai sy'n newydd i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**5.** Teimlai cyfranogwr arall y gallai hyd y pecyn cymorth fod yn anhygyrch i rai rhieni wrth lywio drwy'r wybodaeth sydd ar gael.

> *"Mae 63 tudalen yn llawer i riant eu darllen...gallai fod yn ddefnyddiol cynhyrchu rhai canllawiau 1 dudalen i gefnogi'r ddogfen h.y. Beth yw CDU, Beth yw ADY - fel y gall rhieni ddysgu beth sy'n berthnasol iddyn nhw heb orfod darllen y ddogfen gyfan."*

**6.** Cododd cyfranogwyr bryderon hefyd ynghylch y modd mae'r pecyn cymorth yn sôn am gefnogaeth un-i-un, a theimlent ei fod yn lleihau rheidrwydd yr angen am gefnogaeth un-i-un ar gyfer darparu cymorth unigol am resymau diogelwch ac addysgol. Roeddent yn cwestiynu a oedd y pecyn cymorth yn rhoi sylw i anghenion pobl ifanc ag anghenion mwy eithafol, a oedd yn eu hymylu hwy ymhellach.

**7.** Dywedodd un cyfranogwr fod yr adran 'camsyniadau' yn y pecyn cymorth yn ddefnyddiol wrth egluro materion a gamddeallwyd.

> *"Roeddwn i'n meddwl bod yr adran camsyniadau yn dda iawn - unwaith eto efallai y gellid cynhyrchu'r rhain ar gardiau / ar wahân i'r pecyn cymorth i'w gwneud yn fwy hygyrch i rieni. Er enghraifft, rwy'n cynnal grwpiau cymorth i rieni / gofalwyr a byddai'r rhain yn wych fel taflenni."*

## Amserlenni camarweiniol ac anghysondebau o ran cefnogaeth

**8.** Roedd ymdeimlad ymhlith y cyfranogwyr bod y pecyn cymorth yn cyflwyno'r broses o'r diagnosis, i ddiffinio cyfrifoldeb dros Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a thu hwnt, fel un ddi-dor, heb gydnabod yr oedi sylweddol ym mhob cam o'r amserlenni arfaethedig hyn.

**9.** Roeddent hefyd yn teimlo nad oedd y pecyn cymorth yn ystyried yr anghydraddoldeb a'r anghysondebau yn y gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. O ran Cynlluniau Datblygu Unigol, er enghraifft, roedd cyfranogwyr o'r farn nad oedd y wybodaeth yn y pecyn cymorth yn adlewyrchu bod polisïau awdurdodau lleol ynghylch pwy sy'n cynnal y Cynlluniau hyn, a phryd maen nhw'n cymryd yr awenau gan ysgolion, yn eglur, a'u bod yn

amrywio'n fawr. Gallai hyn arwain at ddryswch i rieni gan bod diffyg safoni ledled Cymru.

> *"O ran graddfeydd amser – mae'n braf iawn dweud y bydd yn cymryd cyhyd â hyn i hyn ddigwydd, ond mewn gwirionedd nid yw'n digwydd. A does dim pwynt cynnwys hynny os nad dyna fydd y realiti i bobl."*
>
> *"Dw i'n meddwl, hyd yn oed pan fyddwch chi wedi cael diagnosis, nad yw'n digwydd yn y ffordd mae'r ddogfen honno'n ei ddweud o gwbl."*

**10.** Teimlodd cyfranogwr arall nad oedd y pecyn cymorth yn rhoi eglurhad manwl i rieni ar sut y dylai neu y gallai cefnogaeth ysgol fod ar gyfer eu plentyn.

> *"Ar ôl edrych drwy'r pecyn cymorth, roeddwn i'n ceisio darganfod sut mae ysgolion yn asesu ac yn casglu data effeithiol ynghylch anghenion plentyn. Os nad ydych chi'n gwybod beth yw cefnogaeth dda i'ch plentyn oherwydd nad ydych chi erioed wedi'i gael, mae'n anodd dweud beth ydyw. Yn enwedig os ydych chi wedi blino'n lân ac yn poeni."*

**11.** Tynnodd un cyfranogwr sylw at bwyslais y pecyn cymorth ar gynhwysiant, a theimlent y gallai hyn gamarwain rhieni i beidio â cheisio cymorth gan ysgolion arbenigol. Roeddent yn teimlo bod angen sicrhau bod rhieni sy'n darllen y pecyn cymorth yn gwybod bod darpariaethau amgen ar gael y tu allan i leoliadau ysgolion prif ffrwd.

## Cymhariaeth ag adnoddau eraill

**12.** Cytunodd y cyfranogwyr eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth fwy defnyddiol ac ymarferol drwy rwydweithiau cyfoedion a chanllawiau gan elusennau, gan fod y cyngor hwn yn aml yn fwy manwl ac wedi'i wreiddio ym mhrofiadau personol, byw pobl eraill.

## Diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth ôl-16

**13.** Roedd cytundeb ymhlith y cyfranogwyr nad oedd y pecyn cymorth yn darparu unrhyw gyngor defnyddiol i rieni pobl ifanc sy'n llywio heriau unigryw yn eu taith ôl-16 mlwydd oed. Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr fod eu plentyn wedi bod yn cael trafferth cael mynediad at gludiant i'r coleg oherwydd ei anghenion.

> *"Nid oes dim cefnogaeth gan y colegau i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, hyd y gwelaf fi. Felly mae'r pecyn cymorth hwn yn ddarllen poenus."*

**Awgrymiadau ar gyfer gwella**

**14.** Holodd y cyfranogwyr pwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth greu'r pecyn cymorth hwn, ac a oedd wedi'i lywio gan brofiadau bywyd rhieni y mae gan eu plant anghenion mwy cymhleth neu anghenion lefel uchel. Roeddent yn pwysleisio y dylai cynhwysiant olygu cynnwys y rhai yr effeithir arnynt ym mhob cam, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n berthnasol ac yn ymarferol i bob rhiant.

**15.** Dadleuodd un cyfranogwr dros gefnogaeth fwy cyflawn i rieni yn y system ADY, fel darparu gweithwyr achos neu eiriolwyr i arwain rhieni drwy'r system o'r dechrau'n deg, yn hytrach na dibynnu ar ddogfennau generig neu wasanaethau datrys anghydfodau cam hwyr, fel yr awgrymir yn y pecyn cymorth.

**16.** Pwysleisiodd y grŵp fod angen i'r pecyn cymorth gynnwys esboniadau cliriach a mwy manwl o hawliau rhieni a phlant, yn ogystal â phob cam sy'n gysylltiedig â sicrhau cefnogaeth. Roeddent yn teimlo bod angen y pecyn cymorth i baratoi rhieni'n well ar gyfer realiti amserlenni sy'n aml yn hir a heriol.

**17.** Mynegodd yr holl gyfranogwyr rwystredigaeth bod y system a'r pecyn cymorth yn aml yn trin plant fel grŵp homogenaidd, gan fethu â chydnabod amrywiaeth yr anghenion, a phwysigrwydd darpariaeth a chymorth gwirioneddol unigol i bob plentyn a pherson ifanc.

# Atodiad 1: Cwestiynau

Defnyddiwyd y cwestiynau hyn i arwain y drafodaeth; ni chafodd pob un eu trafod yn llawn yn ystod y sesiwn.

1. Argraffiadau cyntaf

- Beth oedd eich meddyliau cyntaf pan edrychoch chi drwy'r pecyn cymorth? (Dyluniadau/penawdau/cynllun/iaith ac ati)

2. Eglurder a hygyrchedd

- Pa mor hawdd yw'r pecyn cymorth i'w ddeall a'i lywio?
- A yw'r esboniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r prosesau yn syml i rieni?
- A yw'r pecyn cymorth yn teimlo'n gefnogol ac yn hygyrch i rieni o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau?
- A yw'r iaith yn briodol ar gyfer rhieni sydd â gwahanol lefelau o hyder neu ddealltwriaeth?
- A oes unrhyw rwystrau a allai atal rhai rhieni rhag defnyddio neu ddeall y pecyn cymorth?
- Pa mor ddefnyddiol yw'r eirfa?

3. Cynnwys

- A yw'r pecyn cymorth yn cynnwys yr holl wybodaeth y byddech chi'n ei disgwyl fel rhiant sy'n llywio'r system hon?
- Sut mae'r pecyn cymorth hwn yn cymharu ag adnoddau eraill sydd ar gael i rieni?
- A oes unrhyw bynciau neu gamau yn y broses ADY yr ydych chi'n teimlo bod angen rhoi rhagor o fanylion amdanynt? Pam?
- Oes unrhyw beth ar goll y mae angen i rieni ei wybod, yn eich barn chi?
- Pa adran oeddech chi'n ei chael hi'n fwyaf defnyddiol? Pam?

- A yw'r pecyn cymorth yn egluro'n ddigon clir beth sy'n cyfrif fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, h.y. y ddau gam i'r diffiniad o beth yw anhawster dysgu neu anabledd, a beth yw Darpariaeth Dysgu Ychwanegol?
- A yw'r pecyn cymorth yn ddigon clir ynghylch hawliau apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a cholegau?
- A oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n gwella'r pecyn cymorth?

4. Ymarferoldeb

- A yw'r enghreifftiau a'r canllawiau yn ddigon ymarferol i gefnogi rhieni?
- Allwch chi weld rhieni'n defnyddio'r pecyn cymorth hwn yn ystod gwir sgyrsiau am Anghenion Dysgu Ychwanegol gydag ysgolion neu weithwyr proffesiynol?
- Pa mor ddefnyddiol oeddech chi'n teimlo bod y lincs allanol yn y pecyn cymorth?

5. Sylwadau cyffredinol

- Ar ôl ei adolygu, a ydych chi'n teimlo y bydd y pecyn cymorth yn helpu rhieni i ddeall a llywio'r system ADY yn well?
- A fyddech chi'n ei argymell i rieni eraill?